Craig Macleod
Prif Swyddog
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NB

Dyddiad: 18/06/2026

Annwyl Brif Swyddog Craig Macleod

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Gwelliant o Wasanaethau Oedolion Cyngor Sir y Fflint.**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r llythyr hwn yn disgrifio canfyddiadau ein Harchwiliad Gwelliant a gynhaliwyd rhwng 9 a 13 Mawrth. Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) a'r safonau ansawdd yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.* Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

1.2 Cynhaliwyd yr Archwiliad Gwelliant hwn er mwyn adolygu'r cynnydd a wnaed yn y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ein Harolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2023. Gweler canfyddiadau ein Harchwiliad Gwelliant isod:

| Egwyddor | Meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad yn 2023 | Cynnydd a nodwyd yn ystod yr archwiliad gwelliant |
|---|---|---|
| Pobl | Gallai cynlluniau gofal a chymorth gael eu datblygu ymhellach drwy bennu canlyniadau CAMPUS | Gwnaed rhai gwelliannau – mae |

| | | |
|---|---|---|
| | cliriach a defnyddio dull rhagweithiol yn seiliedig ar gryfderau mewn modd cyson. Yn ogystal, er bod lleisiau'r bobl yn glir mewn rhai asesiadau, dylid datblygu'r dull hwn ymhellach mewn cynlluniau gofal a chymorth. **Dylid cyfeirio at yr hyn sydd o bwys i'r unigolyn a dylid cofnodi canlyniadau personol yn fwy cyson yn y person cyntaf.** | angen cymryd camau pellach |
| Pobl | Weithiau, caiff pobl eu cefnogi drwy system unigolion ar ddyletswydd tra'u bod ar restr aros i'w dyrannu i weithiwr penodol. Gall hyn fod yn heriol i bobl gan nad oes goruchwyliaeth ddigonol o'u hamgylchiadau, ceir diffyg parhad cymorth ac mae'n rhaid i'r bobl ailadrodd eu stori. **Dylai'r awdurdod lleol barhau â'i ymdrechion presennol i sicrhau gweithlu digonol, cymwysedig a medrus cyson er mwyn lleihau'r angen i bobl gael eu cefnogi gan ymarferwyr gwahanol nad ydynt yn eu hadnabod.** | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| Pobl | Ceir enghreifftiau o adolygiadau taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, roedd un enghraifft nad oedd wedi cael adolygiad. **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu'r trefniadau ar gyfer gwneud taliadau uniongyrchol a sut y cânt eu defnyddio yn unol â Chod Ymarfer 4 (Diwallu Anghenion) er mwyn asesu a yw'r canlyniadau personol yn cael eu cyflawni o hyd.** | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| Pobl | **Pan fydd ymarferwyr yn ceisio cyfathrebu ag unigolion, dylai'r awdurdod lleol sicrhau sail** | Gwelliannau wedi'u gwneud – rhaid eu cynnal |

| | | |
|---|---|---|
| | **dystiolaeth fwy cyson sy'n adlewyrchu'r dulliau cyfathrebu a ystyriwyd ac y rhoddwyd cynnig arnynt.** | |
| Pobl | Nid oes tystiolaeth ddigonol i ddangos y caiff dulliau eirioli eu hystyried a'u cynnig yn gyson pan fyddai hynny wedi bod yn briodol. **Mae hwn yn faes y mae'n rhaid ei gryfhau er mwyn dangos y caiff dulliau eirioli eu hystyried fel mater o drefn, yn enwedig ym maes diogelu oedolion.** | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| Pobl | Mae gan yr awdurdod lleol bolisi goruchwylio cynhwysfawr. Mae ymarferwyr yn elwa ar oruchwyliaeth reolaidd ond mae'r ymarfer a safon cofnodion yn anghyson. Mae'r cofnodion goruchwylio gorau yn canolbwyntio ar ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol. Mewn enghreifftiau eraill, mae angen mwy o fyfyrio ar ymarfer, a mwy o ffocws ar chwilfrydedd proffesiynol, canlyniadau a llesiant staff. | Gwelliannau wedi'u gwneud – rhaid eu cynnal |
| Atal | Mae'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau ac adolygiadau gofal cymdeithasol yn uchel a gallant gael effaith negyddol ar bobl. Mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio rhestrau aros ar gyfer asesiadau gofal cymdeithasol yn anghyson ar draws timau. Er i ni gael sicrwydd ar lafar fod timau yn goruchwylio rhestrau aros, nid oedd llawer o gofnodion i ddangos hyn. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff rhestrau aros eu monitro mewn ffordd briodol a chyson ac y caiff gwybodaeth allweddol ei chofnodi i ddangos** | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |

| | | |
|---|---|---|
| | **bod achosion yn cael eu blaenoriaethu'n briodol.** | |
| Atal | Ni chaiff cynlluniau gofal a chymorth bob amser eu hadolygu mewn modd amserol. **Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn rheolaidd er mwyn deall a yw'r ddarpariaeth gofal a chymorth yn diwallu'r anghenion a nodwyd ar gyfer yr unigolyn, ac er mwyn ystyried a yw ei anghenion wedi newid ac a oes angen cynnal asesiad arall.** | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| Llesiant | Gwelsom amrywiaeth yn y cofnodion gofal cymdeithasol mewn perthynas â diogelu oedolion. Mae angen mwy o eglurder o ran safbwyntiau'r oedolyn sy'n wynebu risg, o ran gwneud penderfyniadau, o ran trafodaethau, ac o ran cadarnhau a yw'r camau gweithredu dilynol wedi ymdrin â'r pryder gwreiddiol. Rhaid rhannu canlyniadau'r ymholiadau â'r unigolyn a gyflwynodd y pryder. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarfer diogelu oedolion yn bodloni gofynion Gweithdrefnau Diogelu Cymru (GDC) yn gyson.** | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| Llesiant | Mae asesiadau gofal cymdeithasol ac adroddiadau diogelu rhai unigolion yn dangos nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu gofal. Mae ansawdd y cofnodion hyn a'r penderfyniadau a wneir yn amrywiol. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei ymarfer yn cydymffurfio â gofynion ac egwyddorion Deddf Galluedd** | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |

| | | |
|---|---|---|
| | **Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer perthnasol yn gyson.** | |
| Llesiant | Yn debyg i awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, mae'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn effeithio ar hawliau pobl. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau ar gyfer darparu asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn addas at y diben ac yn ymatebol.** | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| Llesiant | Nid yw'r system gofnodi bresennol yn helpu ymarferwyr i nodi cryfderau a chanlyniadau pobl mewn ffordd ystyrlon. **Dylai'r awdurdod lleol ystyried hyn, a bwrw ati i gaffael system gofnodi wedi'i diweddaru.** | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| Partneriaeth | Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau yn gweithio'n dda ar lefel weithredol; fodd bynnag, ni chaiff gwybodaeth bob amser ei rhannu'n effeithiol oherwydd y dulliau a'r systemau gwahanol ar gyfer cofnodi gwybodaeth. Mae hyn yn golygu nad yw gwybodaeth am anghenion gofal a chymorth pobl ar gael yn hawdd ar draws partneriaid, sy'n cynnwys rhai ymarferwyr a gyflogir gan yr awdurdod lleol. **Dylai'r awdurdod lleol ystyried sut y gall hyrwyddo prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth ymhellach wrth iddo gaffael system gofnodi newydd.** | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |
| Partneriaeth | Rhaid i'r awdurdod lleol gryfhau ei systemau ar gyfer asesiadau gofalwyr er mwyn sicrhau y caiff hawliau a llais pob gofalwr eu | Gwnaed rhai gwelliannau – mae angen cymryd camau pellach |

| | | |
|---|---|---|
| | hyrwyddo'n llawn. Nid yw asesiadau gofalwyr yn cael eu cofnodi'n ddigonol ac ni cheir cyfathrebu digonol yn eu cylch o fewn yr awdurdod lleol. Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd ymarferwyr yn ymwybodol a oedd asesiad gofalwr wedi cael ei gynnal, ac os oedd, beth oedd canlyniad yr asesiad. **Rhaid i'r awdurdod lleol oruchwylio'r asesiadau hyn yn well er mwyn bod yn hyderus ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n llawn yn unol â gofynion Rhan 3 a Rhan 4 o'r Cod Ymarfer (asesu a diwallu anghenion unigolion).** | |

## 2. Terminoleg a Diffinio Meintiau

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad un a thabl o ddiffiniadau o niferoedd yn Atodiad dau.

## 3. Crynodeb o'r Archwiliad Gwelliant

3.1 Caiff gwasanaethau oedolion eu darparu gan weithlu ymroddedig a phrofiadol, a gefnogir gan arweinyddiaeth weladwy sy'n canolbwyntio'n glir ar ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Ceir enghreifftiau lle mae'r ymarferwyr yn gweithio'n greadigol ac yn hyblyg gyda phobl, gofalwyr a phartneriaid i ymateb i anghenion cymhleth a bylchau yn y ddarpariaeth.

3.2 Mae pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch, a cheir enghreifftiau o asesiadau o ansawdd da lle mae amgylchiadau, anghenion cyfathrebu a safbwyntiau pobl yn cael eu deall yn dda. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson. Nid yw'r cynlluniau gofal a chymorth bob amser yn trosi lleisiau pobl yn ganlyniadau clir, wedi'u personoli, ac mae cofnodi yn y person cyntaf yn parhau i fod yn amrywiol.

3.3 Mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r prosesau goruchwylio, cymorth llesiant a threfniadau gweithio hyblyg, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at eu profiad. Fodd bynnag, mae pwysau ar y gweithlu a galw cynyddol yn parhau i effeithio ar ansawdd y gwaith cofnodi, amseroldeb adolygiadau, a pharhad cymorth i rai pobl.

3.4 Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad cryf i atal ac ymyrryd yn gynnar, wedi'i ategu gan amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned. Mae cymorth

cynnar a hyblyg yn helpu i atal problemau rhag gwaethygu ac i gynnal annibyniaeth pobl. Fodd bynnag, nid yw ymarfer ataliol wedi'i ymgorffori'n gyson, ac mae rhestrau aros ar gyfer dyrannu ac adolygu yn lleihau'r sicrwydd bod anghenion sy'n dod i'r amlwg bob amser yn cael eu nodi a'u diwallu'n brydlon.

3.5 Mae ymarfer diogelu yn elwa ar arweinyddiaeth brofiadol, cydberthnasau amlasiantaeth cryf a diwylliant sy'n blaenoriaethu diogelwch a llesiant pobl. Mae'r ymarferwyr yn aml yn ymateb yn gymesur i risg, yn nodi patrymau o bryder ac yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid. Mae gan yr awdurdod lleol drefniadau diogelu sefydledig, ynghyd â phrosesau goruchwylio clir gan arweinwyr a mecanweithiau clir, sy'n helpu i roi Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar waith yn gadarn yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith o gymhwyso adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru yn gyson, sy'n cyfyngu ar sicrwydd bod ymholiadau diogelu bob amser yn mynd rhagddynt ac yn cael eu cofnodi'n unol â'r gofynion statudol, hyd yn oed lle mae'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a'r arweinyddiaeth yn gadarnhaol fel arall.

3.6 Ceir cryfderau clir o ran ymarfer mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Mae'r asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid o ansawdd da ac yn amlygu penderfyniadau cyfreithlon a chymesur, sy'n helpu i amddiffyn hawliau pobl. Fodd bynnag, mae amseroldeb asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn parhau i fod yn anghyson, ac mae'r broses o gofnodi ymarfer o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 y tu allan i'r trefniadau hyn yn amrywiol, gan gyfyngu ar sicrwydd ynghylch cysondeb y broses o wneud penderfyniadau.

3.7 Ar y cyfan, mae'r gwaith partneriaeth yn adeiladol ac yn gwella. Mae'r cydberthnasau â byrddau iechyd, partneriaid diogelu, darparwyr a'r trydydd sector yn cefnogi proses datrys problemau ar y cyd, gwaith uwchgyfeirio effeithiol ac ymatebion cydlynol i sefyllfaoedd cymhleth, gan gynnwys rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Fodd bynnag, nid yw'r camau integreiddio wedi'u hymgorffori'n llawn ar draws pob llwybr eto, ac mae'r trefniadau o ran rhannu gwybodaeth, asesiadau gofalwyr a Gofal Iechyd Parhaus[1] yn parhau i fod yn anghyson.

3.8 Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf, ac mae'n dangos cynnydd ym mhob maes. Fodd bynnag, gall problemau sy'n ymwneud ag ansawdd gwaith cofnodi, amseroldeb a phrosesau goruchwylio gael effaith negyddol ar brofiadau a chanlyniadau pobl. Mae angen gwelliant pellach er mwyn cyflawni ymarfer cyson, cynaliadwy a sicr ar draws gwasanaethau oedolion.

[1] Mae **Gofal Iechyd Parhaus** yn becyn o ofal parhaus sy'n cael ei drefnu a'i ariannu'n gyfan gwbl gan y GIG ar gyfer oedolion ag anghenion iechyd cymhleth, hirdymor. Mae cymhwysedd yn seiliedig ar asesiad sy'n ystyried a oes gan unigolyn *angen iechyd sylfaenol*, yn hytrach nag ar ddiagnosis penodol neu ble y darperir y gofal.

## 4. Canfyddiadau Allweddol a Thystiolaeth

Caiff y canfyddiadau allweddol a rhai enghreifftiau o dystiolaeth eu cyflwyno isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

### Pobl

### <u>Cryfderau</u>

4.1 Caiff pobl eu trin ag urddas a pharch, ac mae'r ymarfer yn cynnwys ymdrechion i ddeall anghenion cyfathrebu a'r hyn sy'n bwysig i bobl. Mae hyn yn cynnwys addasu dulliau cyfathrebu er mwyn cefnogi ymgysylltiad ystyrlon.

4.2 Mae'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei gynnig ac mae wedi'i ymgorffori ym mhob rhan o'r gwasanaeth, gan gynnwys prosesau goruchwylio drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfleoedd amlwg i'r ymarferwyr gyfathrebu yn Gymraeg. Mae'r ymarferwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddysgu ac ymarfer sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn helpu pobl i gyfathrebu yn eu dewis iaith.

4.3 Mae'r ymarferwyr wedi ymrwymo i ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, a cheir enghreifftiau o asesiadau o ansawdd da lle mae amgylchiadau ac anghenion pobl yn cael eu deall yn dda. Defnyddir dyfyniadau a disgrifiadau yn y person cyntaf gan bobl i ategu'r asesiadau. Wrth ymateb i arolygon, mae'r rhanddeiliaid yn disgrifio ymarfer cadarnhaol sy'n seiliedig ar gryfderau ar lefel ymarferwyr unigol, yn enwedig ym maes diogelu oedolion.

4.4 Roedd dros 90% o'r 190 o ymarferwyr a ymatebodd i'r arolygon yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr a chydweithwyr. Cynhelir sesiynau goruchwylio rheolaidd, ac mae llawer o'r ymarferwyr yn nodi bod hyn yn eu helpu i fyfyrio ar ymarfer a gwneud penderfyniadau, gan gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant. Mae'r ymarferwyr yn disgrifio ethos tîm cryf a rennir, lle maent yn teimlo'n hyderus i fynd at reolwyr y tu hwnt i'w rheolwr llinell uniongyrchol ac i weithio'n hyblyg ar draws timau i gefnogi'r galw cynyddol. Mae hyn yn adlewyrchu diwylliant cefnogol ar draws gwasanaethau oedolion, ac mae'n **ymarfer cadarnhaol**.

4.5 Mae gwefan taliadau uniongyrchol yr awdurdod lleol yn rhoi gwybodaeth glir a hygyrch, wedi'i hysgrifennu mewn iaith syml ac wedi'i hategu gan adnoddau ysgrifenedig a gweledol, ynghyd â chyfeiriadau clir. Caiff taliadau uniongyrchol eu cyflwyno'n gyson fel opsiwn dewisol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan gefnogi llais, dewis a rheolaeth pobl. Caiff gwybodaeth i ofalwyr ei nodi'n glir,

ochr yn ochr ag esboniadau cymesur o gyfrifoldebau, prosesau monitro ariannol a threfniadau diogelu.

4.6 Mae'r awdurdod lleol yn datblygu ymatebion creadigol ar gyfer pobl nad yw eu hanghenion yn cyd-fynd yn llawn â'r llwybrau gwasanaeth presennol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio trefniadau hyblyg ac atebion wedi'u teilwra, gan gynnwys taliadau uniongyrchol, i helpu pobl ag anghenion cymhleth i gyflawni sefydlogrwydd a llesiant gwell.

**Meysydd i'w Gwella**

4.7 Nid yw'r cynlluniau gofal a chymorth bob amser yn trosi dymuniadau pobl yn ganlyniadau clir, wedi'u personoli. Er bod barn pobl yn aml yn cael ei chasglu yn ystod y broses asesu ac adolygu, nid yw'r cynlluniau bob amser yn dangos sut y caiff canlyniadau eu cyflawni neu eu hadolygu, gan gynnwys drwy gymorth anffurfiol neu deuluol. Mae ansawdd cofnodion yn amrywio, ac mewn lleiafrif o achosion ceir dibyniaeth ar wybodaeth a gofnodwyd yn flaenorol mewn asesiadau a chynlluniau, gan leihau hyder bod y cofnodion yn adlewyrchu amgylchiadau presennol pobl neu'r cynnydd a wnaed. **Dylai'r awdurdod lleol fwrw ati â chynlluniau i gryfhau safonau cofnodi er mwyn sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn cofnodi'n gyson yr hyn sy'n bwysig i bobl ac yn cefnogi ymarfer wedi'i bersonoli sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.**

4.8 Weithiau caiff pobl eu cefnogi drwy drefniadau dyletswydd wrth iddynt aros i gael eu dyrannu i ymarferydd penodedig. Er bod hyn yn darparu ymateb cychwynnol, gall gyfyngu ar barhad a'r gallu i oruchwylio amgylchiadau unigolyn, ac efallai y bydd gofyn i bobl ailadrodd eu hamgylchiadau. Lle na chaiff pobl eu dyrannu, gan gynnwys drwy drefniadau dyletswydd, efallai na fydd unrhyw gyswllt i roi sicrwydd neu i fonitro newidiadau yn eu hamgylchiadau. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau trefniadau i sicrhau prosesau goruchwylio cyson a pharhad i bobl sy'n aros i gael eu dyrannu.**

4.9 Mae uwch-arweinwyr ac ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau eirioli, a cheir enghreifftiau cadarnhaol lle llwyddodd eiriolaeth i gefnogi llais a dewis pobl, gan gynnwys o fewn cyd-destunau diogelu. Ceir hefyd enghreifftiau lle llwyddodd i gryfhau cyfranogiad pobl mewn penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth. Roedd dros 90% o'r ymarferwyr a ymatebodd i'r arolwg yn cytuno bod eiriolaeth yn cael ei darparu lle y bo'n berthnasol, ond roedd rhai sylwadau'n tynnu sylw at oedi a heriau o ran argaeledd yn y gwasanaeth eirioli a gomisiynwyd. Mae'r broses o gofnodi bod gwasanaethau eirioli wedi cael eu hystyried yn anghyson, ac weithiau caiff ei gofnodi fel "ddim yn ofynnol" heb resymeg glir. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pob ymarferydd yn deall pwysigrwydd eiriolaeth a lle y bo'n briodol, y caiff eiriolaeth ffurfiol ei chynnig, ei chomisiynu, ei hailgynnig a'i darparu pan fo angen.**

**Atal**

**Cryfderau**

4.10 Mae'r Tîm Dilyniant yn darparu enghraifft gadarnhaol o ymarfer ataliol, seiliedig ar gryfderau. Mae'r tîm yn gweithio gyda phobl a theuluoedd i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, i feithrin annibyniaeth ac i leihau dibyniaeth ar gymorth ffurfiol, gan ddefnyddio asesiadau cymesuredd a dull o gymryd risgiau cadarnhaol. Mae'r dull hwn yn helpu o ran gwella hyder, datblygu sgiliau a chymryd rhan yn y gymuned. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.** Mae gan yr awdurdod lleol uchelgais glir i roi'r dull Dilyniant ar waith yn fwy cyson ar draws gwasanaethau oedolion.

4.11 Mae gan yr awdurdod lleol wasanaethau ataliol datblygedig sy'n cynnig cymorth yn y gymuned, gan gynnwys Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWCIS), ailalluogi, teleofal a darpariaeth ehangach yn y gymuned. Mae dulliau ailalluogi a cham-i-lawr yn cefnogi trefniadau rhyddhau o'r ysbyty a threfniadau adfer amserol, gan helpu pobl i ddod yn annibynnol eto lle bo modd. Mae'r awdurdod lleol yn buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol, gan gydnabod eu gwerth wrth atal anghenion pobl rhag gwaethygu a'u galluogi i gael cymorth amserol.

4.12 Mae gofalwyr di-dâl yn cael eu cydnabod fel partneriaid allweddol wrth gefnogi llesiant, a phan gânt eu nodi, byddant yn cael cymorth rhagweithiol, wedi'i deilwra.

4.13 Mae'r awdurdod lleol yn amlygu ymarfer arloesol wrth ymateb i fylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer pobl niwroamrywiol. Mae'r gwasanaethau'n gweithio'n hyblyg i gefnogi pobl nad yw eu hanghenion o bosibl yn bodloni trothwyon cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys dulliau cymorth yn y gymuned a chymorth gan gymheiriaid sy'n hyrwyddo cysylltiad cymdeithasol a llesiant meddyliol. Mae arosiadau hir am asesiad a diagnosis yn y system iechyd i bobl niwroamrywiol, yn enwedig ar bwyntiau pontio, yn effeithio ar gysondeb cymorth ataliol sy'n canolbwyntio ar lesiant. Er bod camau lliniaru ar waith, mae'r pwysau hwn yn lleihau gallu'r awdurdod lleol i adolygu ac addasu cymorth yn gyson ac mewn modd amserol. Mae'r awdurdod lleol yn datblygu cynlluniau i ddiwallu anghenion pobl niwroamrywiol, gan gydnabod pwysigrwydd trefniadau pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.

4.14 Mae'r panel achosion cymhleth o blaid ystyried ymatebion creadigol a chymesur ar gyfer pobl ag anghenion uchel neu annodweddiadol, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â niwroamrywiaeth ac amgylchiadau cymdeithasol cymhleth. Mae'r panel yn darparu mecanwaith i archwilio opsiynau amgen lle mae'r gwasanaethau presennol yn gyfyngedig neu lle nad yw anghenion unigolyn yn cyd-fynd yn glir â thîm penodol. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol.**

4.15 Mae pwyslais cryf ar ddefnydd creadigol a hyblyg o daliadau uniongyrchol, gan gynnwys trefniadau cyfunol a threfniadau a rennir. Mae'r awdurdod lleol yn mynd ati i hyrwyddo arloesedd, a cheir enghreifftiau o daliadau uniongyrchol yn cael eu defnyddio mewn modd ataliol, yn enwedig i gefnogi gofalwyr di-dâl ac i osgoi uwchgyfeirio i wasanaethau mwy dwys.

**Meysydd i'w Gwella**

4.16 Mae pwysau ar y gweithlu a galw cynyddol yn effeithio ar gysondeb ymatebion ataliol. Mewn ychydig iawn o achosion, roedd dibynnu ar wybodaeth a chyngor heb asesiad cymesuredd yn cyfyngu ar sicrwydd ynghylch nodi anghenion sy'n dirywio yn gynnar, gan gynyddu'r risg y byddent yn gwaethygu. **Rhaid i'r awdurdod lleol gryfhau'r broses o oruchwylio gweithgarwch wrth y drws ffrynt er mwyn sicrhau bod anghenion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi'n brydlon, i atal anghenion pobl rhag gwaethygu.**

4.17 Mae'r dulliau o reoli rhestrau aros yn amrywio ar draws timau, ac nid yw'r cofnodion bob amser yn dangos sut mae pobl yn cael eu blaenoriaethu neu eu hadolygu dros amser. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod rhestrau aros yn cael eu monitro'n gyson, a bod cofnodion clir ar gael i ddangos tystiolaeth o flaenoriaethu, goruchwylio a gweithredu amserol.**

4.18 Ceir enghreifftiau o adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth yn cael eu cynnal o fewn yr amserlenni gofynnol, a defnyddir taliadau uniongyrchol mewn ffordd hyblyg i gefnogi annibyniaeth pobl. Fodd bynnag, nid yw'r adolygiadau bob amser yn cael eu cynllunio na'u cwblhau ar amser, gan gynnwys ar gyfer pobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol. Mae hyn yn cyfyngu ar sicrwydd bod trefniadau gofal a chymorth yn parhau i fod yn gyfredol, yn gymesur ac yn ymatebol i newidiadau i anghenion pobl. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth, gan gynnwys unrhyw drefniadau taliadau uniongyrchol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel bod y cymorth yn parhau i fod yn gymesur, yn ymatebol ac yn gyson ag anghenion pobl, yn unol â gofynion Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

4.19 Mae pwysau ehangach ar y system, gan gynnwys arosiadau hir am asesiad a diagnosis i bobl niwroamrywiol, yn enwedig ar bwyntiau pontio, yn effeithio ymhellach ar gysondeb cymorth ataliol sy'n canolbwyntio ar lesiant. Er bod camau lliniaru ar waith, mae'r pwysau hwn yn lleihau gallu'r awdurdod lleol i adolygu ac addasu cymorth yn gyson ac mewn modd amserol.

**Llesiant**

**Cryfderau**

4.20 Mae trefniadau partneriaeth diogelu wedi'u sefydlu'n gadarn, ac mae cydberthnasau amlasiantaeth yn cefnogi'r broses o rannu gwybodaeth a gweithio ar y cyd. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi'r awdurdod lleol i asesu a lliniaru risgiau a diogelu pobl.

4.21 Roedd dros 90% o'r 38 o randdeiliaid a ymatebodd i arolwg AGC yn cytuno bod pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod, a nodwyd yn eang bod yr ymarfer diogelu yn amserol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn cyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

4.22 Mae'r arweinyddiaeth ar ddiogelu yn hygyrch ac yn gefnogol, ac mae'r ymarferwyr yn nodi eu bod yn hyderus wrth ofyn am arweiniad a goruchwyliaeth. Mae'r ymarferwyr diogelu yn gweithio mewn partneriaeth ag ymarferwyr yr awdurdod lleol a phartneriaid allanol i gynnal ymholiadau pan geir gwybod y gallai oedolyn fod yn wynebu risg.

4.23 Lle daw honiadau i law yn erbyn Pobl mewn Swyddi o Ymddiriedaeth, mae gan yr awdurdod lleol systemau cadarn ar waith i alluogi ymarferwyr i nodi a yw'r unigolyn eisoes yn hysbys a/neu wedi bod yn destun gweithdrefnau diogelu yn flaenorol fel rhan o'r broses sgrinio. **Mae hyn yn ymarfer cadarnhaol** sy'n galluogi'r awdurdod lleol i sicrhau bod ymchwiliadau priodol yn cael eu cynnal i bryderon ar lefel unigol a systemig, er mwyn diogelu oedolion sy'n wynebu risg.

4.24 Mae asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid o ansawdd da ac yn darparu dadansoddiad clir a chymesur o gyfyngiadau, risgiau a'r broses gwneud penderfyniadau er lles pennaf. Mae'r asesiadau'n nodi rhesymeg glir dros yr awdurdodiad a hyd yr awdurdodiad, a rhoddir ystyriaeth briodol i opsiynau llai cyfyngol. Lle nad yw pobl yn gallu cymryd rhan yn uniongyrchol, mae'r cofnodion yn esbonio sut y ceir gwybod eu barn drwy ymgysylltu â'r teulu, darparwyr gofal a gweithwyr proffesiynol sy'n adnabod yr unigolyn yn dda. Mae Cynrychiolwyr y Person Perthnasol yn cael eu nodi, ac mae cynnwys y teulu yn helpu i sicrhau tryloywder a dealltwriaeth o'r trefniadau. Mae'r ymarfer yn dangos bod Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cael ei chymhwyso'n gadarn a'i bod yn helpu i ddiogelu hawliau pobl.

**Meysydd i'w Gwella**

4.25 Mae'r ymatebion diogelu yn amserol ac yn gymesur ar y cyfan, ond mewn ychydig iawn o achosion nid yw'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu cymhwyso'n llawn lle mae patrymau risg yn dod i'r amlwg, ac nid yw'r rhesymeg dros benderfyniadau neu gamau dilynol bob amser yn glir, sy'n cyfyngu ar sicrwydd

bod y camau a gymerwyd wedi mynd i'r afael yn llawn â'r risgiau a nodwyd, yn enwedig lle mae'r pryderon yn gymhleth neu'n codi dro ar ôl tro. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod yr ymatebion diogelu yn amlygu trefniadau clir o ran adolygu, dilyniant a rhesymeg lle mae patrymau risg yn dod i'r amlwg, a bod penderfyniadau, camau gweithredu a chanlyniadau yn cael eu cofnodi'n gyson, er mwyn rhoi sicrwydd yr ymdriniwyd yn effeithiol â'r risgiau a nodwyd.**

4.26 Mewn ychydig iawn o achosion, ni chafodd ymholiadau Adran 5 o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru eu cymhwyso'n gyson, gan gyfyngu ar sicrwydd yr ymatebwyd i bryderon ynghylch camdriniaeth neu esgeulustod posibl gan y rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth yn unol â'r gofynion. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gweithdrefnau Adran 5 yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datblygu'n briodol, a bod cofnod clir yn cael ei gadw o benderfyniadau, camau gweithredu a chanlyniadau.**

4.27 Yn debyg i awdurdodau lleol ledled Cymru, mae'r awdurdod lleol yn parhau i wynebu pwysau sylweddol ym mhob rhan o'r system wrth ateb y galw am asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Mae'r ôl-groniad o asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn gwella ond yn parhau i fod yn bwysau sylweddol, ac nid yw'r trefniadau presennol yn gwbl ymatebol eto. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau ar gyfer asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn addas at y diben ac yn ymatebol**

4.28 Nid oes tystiolaeth gyson i ddangos bod Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cael ei chymhwyso y tu allan i'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Er bod yr ymarfer o ran y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn dangos bod y Ddeddf yn cael ei chymhwyso'n gadarn, gwnaeth lleiafrif o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i arolwg AGC fynegi pryderon ynghylch cysondeb wrth ymdrin â galluedd meddyliol yn ehangach. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn anghysondebau wrth gofnodi asesiadau o alluedd a phenderfyniadau er lles pennaf y tu allan i'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Gall hyn gyfyngu ar sicrwydd ynghylch y modd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a'u hadolygu. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod asesiadau o alluedd meddyliol a phenderfyniadau er lles pennaf yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u cofnodi'n glir yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005.**

**Partneriaeth**

<u>**Cryfderau**</u>

4.29 Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn weladwy ac yn hygyrch, ac mae llesiant yr ymarferwyr yn flaenoriaeth glir yn niwylliant y gwasanaeth. Mae trefniadau gweithio hybrid a hyblygrwydd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan yr ymarferwyr ac yn helpu o ran cadw staff. Mae'r arweinwyr yn archwilio

opsiynau digidol er mwyn cefnogi'r ymarferwyr ymhellach, gan leihau'r baich gweinyddol arnynt a lleihau'r oedi i bobl sy'n deillio o hynny.

4.30 Mae gweithio mewn partneriaeth ag adrannau iechyd, tai, eiriolaeth a'r trydydd sector yn hwyluso ymdrechion i ddatrys problemau a datblygu gwasanaethau ar y cyd. Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu systemau a phrosesau i gefnogi'r gwaith o rannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau.

4.31 Mae'r awdurdod lleol yn gweithio o fewn system iechyd gymhleth, sy'n cynnwys trefniadau trawsffiniol, ac mae'r cyd-destun hwn yn cymhlethu prosesau rhannu gwybodaeth a chynllunio i ryddhau cleifion. Mae'r ymarferwyr yn cymryd rhan weithredol wrth lywio datblygiad system rheoli achosion electronig newydd, a fydd yn gwella'r trefniadau hyn ac yn cefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn well.

4.32 Ers 2022, mae'r awdurdod lleol wedi gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru i brofi sut y gellid defnyddio trefniadau taliadau uniongyrchol ar gyfer unigolion sy'n derbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Datblygwyd trefniadau peilot i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith o ran llywodraethu, goruchwyliaeth ariannol, sicrwydd y gweithlu a llywodraethu clinigol. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r trefniadau hyn wedi cael eu rhannu â phartneriaid er mwyn meithrin dealltwriaeth ehangach a helpu i gynllunio camau gweithredu. Mae hyn yn amlygu gwaith partneriaeth effeithiol ac arloesedd ochr yn ochr â ffocws parhaus ar ddiogelu a chanlyniadau i bobl.

4.33 Mae gan yr awdurdod lleol fframwaith sicrhau ansawdd drafft a gefnogir gan adnoddau archwilio a phanel archwilio i gefnogi gwelliant parhaus. Mae'r adnoddau archwilio wedi'u llunio'n dda ac yn dangos bod gan y gwasanaeth ffocws clir ar y meysydd i'w gwella. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn y gwasanaethau oedolion gyda chymorth swyddog sicrhau ansawdd dynodedig.

### Meysydd i'w Gwella

4.34 Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau er mwyn helpu i recriwtio unigolion i'r gweithlu, gan gynnwys mentrau 'tyfu eich hun' ac ymgysylltu â phartneriaid addysg i helpu dysgwyr i ddod o hyd i swyddi. Mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi cymorth llesiant a threfniadau gweithio hyblyg, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at brofiad y staff. Fodd bynnag, mae pwysau ar y gweithlu a galw cynyddol yn parhau i effeithio ar gysondeb o ran ansawdd gwaith cofnodi, amseroldeb adolygiadau, a pharhad cymorth i bobl. **Dylai'r awdurdod lleol gryfhau a chynnal ei drefniadau recriwtio a chadw staff er mwyn cefnogi gweithlu sefydlog a digonol.**

4.35 Mae trefniadau'r panel yn sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn cael ei goruchwylio, ond nid yw dealltwriaeth a phrofiad yr ymarferwyr o ddiben ac effaith y panel yn gyson, ac ni chaiff adborth ynghylch ystyriaethau ansawdd ei gofnodi'n gyson. **Dylai'r awdurdod lleol fwrw ati â chynlluniau i gyflwyno pecyn cymorth i ymarferwyr, a chryfhau'r trefniadau ar gyfer cyfleu a chofnodi penderfyniadau'r panel, gwersi a ddysgwyd ac adborth.**

4.36 Nid yw'r systemau gwybodaeth yn cefnogi ymarfer effeithiol yn gyson. Mae dyblygu a chofnodi amrywiol yn cyfyngu ar allu'r awdurdod lleol i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau a gwella effeithlonrwydd. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio gydag ymarferwyr a phartneriaid i fynd i'r afael â'r materion hyn cyn rhoi system newydd ar waith. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i wella'r systemau gwybodaeth er mwyn cefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a phrosesau cofnodi cyson.**

4.37 Mae'r ymarferwyr yn cydweithio â phartneriaid iechyd i nodi pryd y gallai gofal iechyd parhaus fod yn briodol, i gefnogi atgyfeiriadau, ac i sicrhau bod pobl a theuluoedd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r cofnodion yn dangos bod pobl yn elwa ar eiriolaeth, a bod yr ymarferwyr yn cefnogi asesiadau lle gallai pobl fod yn gymwys. Fodd bynnag, nid yw'r broses o gofnodi ystyriaethau, penderfyniadau a chanlyniadau gofal iechyd parhaus yn gyson, ac nid yw'r ymarferwyr bob amser yn deall sut i herio penderfyniadau iechyd pan na chytunir y dylid symud ymlaen i Adnodd Cymorth Penderfynu. Mae hyn yn cyfyngu ar sicrwydd ynghylch amseroldeb, uwchgyfeirio a chydlyniant llwybrau gofal iechyd parhaus pobl. **Dylai'r awdurdod lleol fwrw ati â chynlluniau i gryfhau cysondeb a sicrwydd mewn perthynas â threfniadau gofal iechyd parhaus.**

4.38 Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad i nodi a chefnogi gofalwyr di-dâl, gan gynnwys drwy drefniadau partneriaeth sefydledig â gwasanaethau a gomisiynir, megis NEWCIS. Mae hwb cymunedol wedi'i ddatblygu sydd wedi gwella mynediad pobl at gymorth, a cheir enghreifftiau lle mae gofalwyr yn cael eu cynnwys, yn cael gwybod am eu hawliau, ac yn cael eu cefnogi i fynegi eu hanghenion. Fodd bynnag, nid yw asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnig, eu cwblhau na'u cofnodi'n gyson, ac nid yw safbwyntiau gofalwyr i'w gweld yn gyson mewn asesiadau ac adolygiadau. **Dylai'r awdurdod lleol barhau i gryfhau'r trefniadau er mwyn sicrhau bod hawliau ac anghenion gofalwyr yn cael eu nodi, eu hasesu a'u hadolygu'n gyson yn unol â Rhannau 3 a 4 o God Ymarfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.**

## 5. Y Camau Nesaf

Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r

awdurdod lleol. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn disgwyl i'r awdurdod lleol rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd ag awdurdodau lleol eraill, er mwyn rhannu'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad drwy ystyried profiadau 30 o bobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom edrych ar 26 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pedwar.
- Mae olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a lle y bo'n briodol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweliadau â 3 pherson sy'n cael gwasanaethau a/neu eu gofalwr.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau, â 34 o gynrychiolwyr yr awdurdod lleol ac aelodau etholedig (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm, rheolwyr gweithredol, pennaeth/penaethiaid gwasanaeth, prif swyddog gwasanaethau cymdeithasol).
- Gwnaethom ymweld â gwasanaeth NEWCIS.
- Gwnaethom ymweld â Thŷ Croes Atti, sef cartref gofal preswyl i bobl hŷn, sy'n cynnig darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig, a Thŷ Coed y Ddraig, sef canolfan gymorth gymunedol i oedolion ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anghenion iechyd meddwl, sy'n cynnig mewnbwn iechyd integredig.
- Gwnaethon arsylwi ar Banel Ardal Leol.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd i AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, sefydliadau partner a phobl.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 7. Y Gymraeg

Mae AGC yn ymrwymedig i ddarparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn ystod ei gweithgarwch ag awdurdodau lleol.

Nid oedd angen y cynnig rhagweithiol y tro hwn. Cawsom wybod gan yr awdurdod lleol nad oedd y bobl a oedd yn cymryd rhan am gyfrannu at yr archwiliad gwelliant hwn yn Gymraeg.

## 8. Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r ymarferwyr, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

**Atodiad 1**

**Rhestr Terminoleg**

| **Term** | **Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau** |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella er mwyn i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a/neu ganlyniadau i bobl a/neu eu gofalwyr. Nid yw'n gyfystyr â methiant i gyflawni dyletswydd gyfreithiol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn |

| | |
|---|---|
| | gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion y Ddeddf sy'n anelu at gryfhau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau cywir o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

**Atodiad 2**

**Tabl Diffinio Meintiau**

| Terminoleg | Diffiniad |
|---|---|
| Bron pob un | Heb fawr ddim eithriadau |
| Rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| Llawer | 70% neu fwy |
| Mwyafrif | Dros 60% |
| Hanner | 50% |
| Tua hanner | Yn agos at 50% |
| Lleiafrif | Llai na 40% |
| Ychydig | Llai nag 20% |
| Ychydig iawn | Llai na 10% |